

184)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting, nos Lun Gorffennaf 18fed 2022 /18/07/22—8pm at Tabernacle Chapel Vestry.

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:M. Griffiths, A Davies, H. Lewis, Y. Griffiths, D. Davies, G. Jones, S. Mason

Ymddiheuriadau(apologies): V. Davies

Clerc:Anita Evans Ymwelwyr/visitors: PCSO Anwen Davies;PCSO Georgia Boyle

1)Cadeiriwyd gan Martin Griffiths. Croesawodd bawb, a nodwyd ymddiheuriadau. Martin Griffiths(chairman)welcomed all to the meeting, and apologies noted.

2)Datgan diddordeb gan Gynghorwyr/declaration of interest:none.

3)Heddlu/Police. Roedd dwy Heddwys yn bresennol, ac roedd adroddiad wedi ei dderbyn sydd yn ddefnyddiol. Codwyd materion:plant yn defnyddio iaith anwedus ar y cae chwarae ym Mhencader;system traffig ar bwys Ysgol Cae'r Felin ddim yn llwyddiannus;ceir swnllyd ar hewlydd ein plwyf yn hwyr y nos. There were two PCSOs present. We had received the monthly data. Members raised these concerns:children using foul language on the playing field in Pencader;traffic system near Ysgol Cae'r Felin is not successful;cars speeding on Parish roads are a problem-especially late at night.

4)Cofnodion mis Meh. / June minutes found to be correct—prop. . Davies, sec. A. Davies.

5)Materion y Clerc/Clerk matters:

a)Cyngor Sir –twill ar bwys Neuadd yr Eglwys, Pencader wedi ei lenwi o'r diwedd. Nicola Smith wedi pasio materion cysgodfwydd bws nol i T. Williams.

b)Cyfleusterau Pencader—plwmer wedi bod yn gwneud y gwaith cywiro ym Mhencader. Dyfed Alarms-wedi gosod y cctv; ar ol i'r trydanwr wirio'r safle byddwn yn barod i agor. Mae C. Sir Gar yn mynd I drefnu glanhau ddwywaith yr wythnos(arbrawf fydd hyn). Trafodwyd amserau agor. Penderfynwyd ar hyn:haf:7yb hyd 8yh;gaeaf:7yb hyd 6yh(arbrawf fydd hyn hefyd). Cynnigiodd A. Davies a S. Mason gymeryd gofal o'r allweddi fel treial. Diolch iddynt. Byddwn yn gofyn i'r C. Sir a oes ganddynt arwydd i'w osod ar ffrynt yr adeilad. Gobaith y C. Cymuned yw y bydd y safle yn cael ei pharchu.

Pencader Conveniences:The plumber has carried out repairs on the site, and cctv has been installed. Following the electrics checked we will be ready to open. The C. Council will

arrange cleaning twice a week(as an experiment). Opening hours were discussed, and following agreed:summer hours:7am to 8pm;winter hours:7am to 6pm. Councillors A. Davies and 185)S. Mason volunteered to take charge of the keys, and were thanked. We will ask the C. Council if they can provide a sign for the site. Members very much hope that this site will be treated with respect.

Cyfleusterau Alltwalis:mae'r gwaith ar y safle yn mynd yn ei flaen;mae'r Clerc wedi bod yn Neuadd y Sir i nol yr allweddi. Repairs are on going at the Alltwalis Conveniences;the Clerk has been to County Hall to fetch the keys.

c)Defibrillator—byddwn yn cysylltu a dyn o Brechfa I drefnu hyfforddiant. Penderfynnwyd gosod un newydd ar wal y cyfleusterau ym Mhencader. Mae'r un ar wal fferm Glanawmor Uchaf ddim yn gweithio o hyd oherwydd prinder pads yn y wlad. We will contact a gentleman from Brechfa re defibrillator training. It was decided to place a new one on the wall of the Conveniences. The one on Glanawmor Ucha wall is not in use, because the company we have used can't get the pads.

ch)Bancio:trafodwyd gosod system BACS yn ei le, a derbyniwyd—D. Davies yn cynnig a H. Lewis yn eilio. The Council has decided to set up BACS system with HSBC.

d)Cynllun hyfforddiant i aelodau ar waith/our training programme is being sorted.

dd)Ffens tu ol y Gofgolofn—angen sylw. Clerc yn mynd I weld y mecanic ar yr iard gyfagos I holi am y perchen. The fence behind the War Memorial is very untidy.

e)Golau newydd yn ardal Glanawmor Uchaf—pasiwyd gofyn am y posibilrwydd —cynnig D. Davies, eilio H. Lewis. The Clerk will contact the street lighting department at the Co. Council to ask for the possibility of siting a new light pole near Glanawmor Uchaf.

f)Cafnau blodau—Farmyard yn gofidio am nad yw pob un yn cael dwr;bydd aelodau'r Cyngor yn cadw llygad ar y rhai yn eu pentrefi. Councillors will keep an eye on planters.

ff)Cornel Chwarae: Clerc wedi derbyn arwydd dim beiciau/sgwteri o Dregaron. The sign prohibiting bikes/scooters has been received.

g)Arwerydd: bydd y Clerc yn gofyn i V. Davies ofyn i ddeiliaid Arwerydd anfon e-bost yn gofyn am ail osod bollard ar y palmant o flaen y ty/as we have had no success with the Co. Council re installing the bollard outside Arwerydd, we will ask the homeowner to submit an e-mail to forward to the Co. Council.

6)Ariannol/financial:

a)Cafwyd yr adroddiad yn gywir/balance sheet found to be correct:prop:Y. Griffiths, sec:A. Davies. Biliau i'w talu:Cyflogau(wages):£2, 102. 07;Costau'r Clerc:£16. 38;Kangaloos £150. 00;Microsoft Office 365:£59. 99;accountant:£318. 00; i'w talu—to be 186)paid(prop. H. Lewis, sec. S. Mason.)Trafodwyd a phenderfynwyd ar gostau newydd l'r ddwy Fynwent, Bydd yr ymgymrwyr yn cael y rhestr newydd, a fydd yn dod i rym Medi 1af. New Cemetery costs come to force on September 1st.

7)Cynllunio/Planning: wedi e-bostio i'r Cynghorwyr-dim gwrthwynebiad/following e-mailed to Councillors -no objections:a)Graigwrtheyrn;Dolgrogws.

8)Gohebiaeth/correspondence:

i)IPRW—ffurflen costau Cynghorwyr/Councillors'costs need to be sent. .

ii)Rhian Rowcliffe wedi cysylltu am y posibilrwydd o osod ford bicnic yn y Cornel Chwarae. Daethpwyd i'r penderfyniad nad oedd lle i eitem arall ar y safle, ac y byddai yn amharu ar iechedd a diogelwch. We have had a request from R. Rowcliffe to place a picnic table in the Play Corner;it was decided this was not possible—on health and safety grounds, and space.

iii)o gofnodion mis Mehefin:arwydd ildio ar bwys Maesawelon Gwyddgrug yn cuddio yn y tyfiant, 'run broblem gyda arwydd VAS ar droad Dolgran, cysgodfan rhiw Alltwalis yn frwnt iawn, angen gwaith yn y Fynwent—yr Ardd Goffa, a'r toiledau. From June minutes:important road signs hiding in overgrowth on Gwyddgrug junction, and VAS sign near Dolgran junction.

iv)Derbyniwyd e-byst oddiwrth M. Griffiths Dolgran yn gofyn eto am olau stryd tu fas Tyglyn, ac esboniodd y Clerc ei bod wedi cwrdd ag Arwel Price sawl blwyddyn yn ol, a'l fod yn dweud nad oedd yn bosibl gosod polyn yn yr ardal. Daeth ail e-bost oddiwrth M. Griffiths yn dweud ei bod wedi cysylltu eto, a bod A. Price yn aros am gadarnhad oddiwrth y Cyngor yma. M. Griffiths has requested a new street light near Tyglyn Dolgran. The Clerk will contact Arwel Price.

v)Kangaloos wedi cysylltu l ddweud fod y teclyn golchi dwylo wedi torri yn y toiled symudol. Fe fydd y gost ychwanegol yn cael ei adio at y bil nesa. The hand sanitiser in the portaloo has been damaged, and extra cost will be added next bill.

vi)Yr Ardd Pontweli yn gwahodd gwirfoddolwyr, a phobl I ymuno yn y cyrsiau/invitation to attend courses, and to be a volunteer at Pontweli.

187) 9)Gwybodaeth oddiwrth y Cynghorwyr/information from Councillors:

Y. Griffiths—cerddwyr wedi bod yn holi am lwybr a phont nes lawr na’r Felin/Ramblers have been asking re path and bridge in Gwyddgrug.

H. Lewis-----arwyddion wedi gwaith -----wedi eu gadael ar hyd y ffyrdd/signs have been left around Pencader advertising work.

A. Davies---ochr mat du yn y C. Chwarae yn dechrau codi;clustog cyflymder ar bwys Bee Hive yn wael;rhiw Alltwalis yn edrych yn beryglus iawn wedi torri coed;llwybr troed tu ol y Mans wedi gordyfu/black matting under swings in the Play Corner is damaged;speed hump near B. Hive is in a bad state;after felling trees on Alltwalis hill, the bank looks very dangerous;the footpath behind the Manse is very overgrown.

G. Jones:hewl heibio ac hyd Glantweli Fach yn wael—cloddiau wedi gordyfu;pont Abergwyddil ar gau o hyd;cloddiau o Gwenfro I Llwyn wedi gordyfu—amhosib gweld allan i’r hewl;hewl Pencader yn llawn tyllau/ road to and past Glantweli Fach is very overgrown;same on main road from Gwenfro to Llwyn;Abergwyddil bridge still closed;Pencader road full of potholes.

D. Davies:dim son am linellau melyn heibio Wilkes Head;hewl yn beryglus heibio Pont Cwmgwen—angen palmant;angen sylw ar arwyddion hewl Pont Dryslwyn/still no yellow lines on the road past W. Head;Cwmgwen Bridge is dangerous for pedestrians;signage near Dryslwyn Bridge needs attention.

M. Griffiths:angen glanhau’r gwteri yn gyson ar y ffordd fewn i Bontweli oherwydd fod dwr wedi ail-ddechrau rhedeg o’r graig;oherydd cymysgwch diweddar byddai’n dda o beth pa adran/swyddog mae Cyngorau fod cysylltu pan fydd problem;angen creu ffurflen wirio i J. Jones pan yn gwneud arolwg yn y C. Chwarae/Co. Council need to clear drains constantly on road into Pontweli, as water has started running down the rock;following a lot of confusion lately it would be helpful to know which department deals with problems at the

Co. Council;we need to create a check list form for J. Jones to help when carrying out safety checks.

Gorffenwyd/meeting ended 10. 15pm

DRAFT